# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 243(v4)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff Llywodraeth Cymru ddatganiad ynghylch diogelwch tân mewn llety myfyrwyr yng Nghymru yn dilyn tân yr wythnos diwethaf ym Mhrifysgol Bolton?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Ardoll ar Barcio yn y Gweithle

(30 munud)

**NDM7188** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i alluogi rhoi ardoll ar barcio yn y gweithle.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) galluogi awdurdodau lleol i weithredu ardoll ar barcio yn y gweithle, yn dibynnu ar nifer y lleoedd parcio a neilltuir i gyflogeion;

b) galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio'r refeniw i gryfhau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol;

c) lleihau tagfeydd traffig mewn canolfannau poblogaeth mawr;

d) annog cyflogwyr i hyrwyddo cynlluniau teithio llesol ar gyfer eu staff ac eiriol ar gyfer gwell trafnidiaeth gyhoeddus;

e) cymell Llywodraeth Cymru i annog awdurdodau lleol yng Nghymru i roi'r ardoll hon ar waith, fel rhan o gyfres o fesurau i fynd i'r afael â'r allyriadau carbon sy'n achosi argyfwng yn yr hinsawdd.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Gofal Hosbis a Gofal Lliniarol

(60 munud)

**NDM7193** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol ar Anghydraddoldebau o ran Mynediad i Ofal Hosbis a Gofal Lliniarol.

2. Yn cydnabod bod gan tua 23,000 o bobl yng Nghymru angen gofal lliniarol ar unrhyw un adeg, gan gynnwys dros 1,000 o blant.

3. Yn cydnabod er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran ehangu mynediad i ofal hosbis a gofal lliniarol yng Nghymru, bod anghenion sylweddol sydd heb eu diwallu ac anghenion na fodlonwyd yn barhaus, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â hyn.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) amlinellu sut y bydd Cymru'n dod yn 'wlad dosturiol';

b) sicrhau bod cryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru yn cael ei wneud yn ganolog i'r dull hwn o weithredu;

c) darparu meini prawf adrodd cyson, a mynd i'r afael â bylchau yn y data a gaiff eu casglu ar anghenion gofal lliniarol i oedolion a phediatrig;

d) diweddaru'r mecanwaith cyllido ar gyfer hosbisau elusennol fel ei fod yn seiliedig ar y data sydd ei angen ar y boblogaeth leol a nifer yr achosion;

e) cynyddu lefel y cyllid statudol a ddarperir i hosbisau oedolion a phlant yng Nghymru.

Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol, Anghydraddoldebau mewn mynediad at ofal hosbis a lliniarol, Gorffennaf 2018

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod bod cynnydd wedi’i wneud o ran ehangu mynediad i ofal hosbis a gofal lliniarol yng Nghymru a bod angen gwneud rhagor o waith i nodi unrhyw angen sydd heb ei ddiwallu

Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru:

a) yn parhau i weithio gyda phartneriaid statudol a phartneriaid yn y trydydd sector i gyflawni’r uchelgais o sicrhau mai Cymru yw 'gwlad dosturiol' gyntaf y byd;

b) yn sicrhau bod cryfhau’r ddarpariaeth gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru yn cael ei wneud yn ganolog i’r dull gweithredu hwn;

c) yn darparu meini prawf adrodd cyson, ac yn mynd i’r afael â bylchau yn y data a gaiff eu casglu am anghenion gofal lliniarol oedolion a gofal lliniarol pediatrig;

d) yn parhau i fonitro’r dull cyllido ar gyfer hosbisau elusennol gan weithio gyda’r bwrdd diwedd oes a’r byrddau iechyd;

e) yn parhau i fonitro ac adolygu’r cyllid a ddarperir i hosbisau oedolion a phlant yng Nghymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

sicrhau bod gofalwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ystod ac ar ôl iddynt ofalu am rywun sy'n cael gofal lliniarol.

**Gwelliant 3 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

sicrhau bod amrywiaeth o wasanaethau ar gael ym mhob rhan o Gymru fel bod modd parchu dewisiadau'r unigolyn o ran y math o ofal lliniarol a ddarperir, ynghyd â lleoliad y gofal hwnnw.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Strategaeth Cerbydau

(60 munud)

**NDM7195** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi argymhelliad Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad yn 2013 y dylai Llywodraeth Cymru: 'Ddatblygu a chyhoeddi strategaeth cerbydau fel mater o frys, nid dim ond i sicrhau bod penderfyniadau pwysig ynglŷn â chydweddiad cerbydau ar gyfer trydaneiddio a deddfwriaeth hygyrchedd yn cael eu cymryd mewn da bryd i osgoi’r costau uwch a’r tarfu sy’n deillio o oedi, ond hefyd i gynyddu capasiti ac ansawdd trenau ar gyfer y tymor hir '.

2. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru:

(a) i gymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt mor bell yn ôl â 2013 mewn perthynas â cherbydau;

(b) i gyrraedd y dyddiad cau ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau pobl â chyfyngiadau symudedd (PRM) mewn perthynas â'i gerbydau;

(c) i wneud cais amserol i'r Adran Drafnidiaeth am y rhyddhad angenrheidiol i gadw trenau nad ydynt yn cydymffurfio â rheoliadau pobl â chyfyngiadau symudedd (PRM) mewn gwasanaeth o fis Ionawr 2020.

3. Yn mynegi pryder am yr aflonyddwch parhaus y mae llawer o deithwyr rheilffordd Trafnidiaeth Cymru yn ei wynebu bob dydd.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi sicrwydd bod ganddi gynlluniau wrth gefn ar waith i liniaru'r posibilrwydd o golli cyfran fawr o'i fflyd.

Y Pwyllgor Menter a Busnes, Dyfodol Masnachfraint Cymru a'r Gororau, Rhagfyr 2013

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" a rhoi yn ei le:

1. Yn croesawu'r buddsoddiad o £5 biliwn yn rhwydwaith rheilffyrdd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf, gan gynnwys dros £800 miliwn mewn cerbydau.
2. Yn nodi'r heriau y mae'r diwydiant rheilffyrdd yn eu hwynebu ar draws y DU o safbwynt cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran teithwyr â symudedd cyfyngedig sy'n effeithio ar fasnachfreintiau ar draws y DU.
3. Yn cydnabod mai un o'r prif resymau dros brinder cerbydau yw'r ffaith nad yw Llywodraeth y DU wedi edrych i'r dyfodol wrth gwtogi ei rhaglen drydaneiddio, gan effeithio ar Abertawe ac arwain at oedi o safbwynt darpariaeth cerbydau.
4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw'r etholiad cyffredinol yn amharu ar geisiadau am randdirymiadau o safbwynt teithwyr â symudedd cyfyngedig er mwyn sicrhau capasiti ychwanegol ar y rhwydwaith am gyfnod byr hyd 2020.
5. Yn nodi nad yw'r system gerbydau ar draws y DU yn gweithio ac yn galw ar Lywodraeth y DU i gydweithio â'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn datblygu model newydd.

**Gwelliant 2 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi mai mater i Lywodraeth Cymru oedd y cyfrifoldeb dros ddarparu capasiti cerbydau ar gyfer gwasanaethau Cymru a gwasanaethau i Gymru yn unig o dan y fasnachfraint reilffyrdd a weithredwyd gan Drenau Arriva Cymru ers 2006.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer - Gohirwyd tan 8 Ionawr 2020

**NDM7194** [Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)]

Cymru Dairieithog: Y gwerth i Gymru o addysgu ieithoedd tramor modern.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13/11/2019 i'w hateb ar 20/11/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

1 OAQ54689

**(e)**

Pa ddyraniadau ychwanegol fydd ar gael yn ystod y cylch cyllideb presennol i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus wrth ymdrin â thywydd garw?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

2 OAQ54723

**(e)**

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran diwygio caffael cyhoeddus er mwyn galluogi mwy o fwyd ffres ar gyfer ysgolion, ysbytai a chartrefi nyrsio i gael eu caffael yn lleol?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

3 OAQ54712

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru yng Nghymoedd De Cymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

4 OAQ54716

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r pwysau allanol sy'n effeithio ar broses Llywodraeth Cymru o bennu'r gyllideb?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

5 OAQ54726

**(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod cyllideb arfaethedig Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu gwariant ataliol?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

6 OAQ54711

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am rôl y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

**7** OAQ54694

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch dyraniadau cyllid i'r portffolio economi a thrafnidiaeth?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**8** OAQ54690

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y model buddsoddi cydfuddiannol?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

**9** OAQ54702

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid fel rhan o'r Ail Becyn Buddsoddi Cyfalaf?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

**10** OAQ54715

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddarparu datganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leddfu'r baich trethu ar bobl ifanc ar ddechrau eu gyrfaoedd?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

**11** OAQ54718

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**12** OAQ54707

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fwriadau Llywodraeth Cymru parthed cyflwyno ardrethi anomestig ar brojectau ynni hydro?

## Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**1** OAQ54697

**(w)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ymdrechion awdurdodau lleol yn ne orllewin Cymru i gwrdd â safonau'r Gymraeg?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

2 OAQ54724

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau'r berthynas rhwng Cymru a gwledydd sydd â chysylltiadau cryf â'n cymunedau mwyaf amrywiol?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

3 OAQ54725

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru ar Flaenau Gwent?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OAQ54693

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu Archif Genedlaethol Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

5 OAQ54701

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer y twristiaid sy'n ymweld â Chymoedd De Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

6 OAQ54699

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i adfer Castell Rhiw'r Perrai ger Draethen?

**David Rees** *Aberafan*

7 OAQ54722

**(e)**

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran cynhyrchu concordat rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch trafodaethau masnach yn y dyfodol?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

8 OAQ54708

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i chwaraeon cymunedol ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

9 OAQ54710

**(w)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynglyn â sut bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn mynd i gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

## Comisiwn y Cynulliad

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

1 OAQ54721

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y chwiliadau diogelwch ar ystâd y Cynulliad?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

2 OAQ54706

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am y cysylltiad a fu rhwng y Llywydd a’r Prif Weithredwr a Syr Roderick Evans o ran y cwynion ynghylch safonau?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

3 OAQ54713

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd strategaeth gyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OAQ54729

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am baratoadau ar gyfer ymestyn yr etholfraint cyn etholiad nesaf y Cynulliad ym mis Mai 2021?